

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar  
Zoom  
Nos Fawrth, Ebrill 13, 2021 am 7:30yh o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Llinos Williams, John Hughes a Gareth Ellis. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Simon Evans, Peredur Jenkins.

Yn absenoldeb Simon Evans gadeirwyd y cyfarfod gan Elfed ap Gomer.

**2. Datgan diddordeb:**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 9, 2021**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Chwefror 9, 2021**

Eitem 2. Anfonwyd llythyr (11/2/2021) i Mr Antony D.Ll. Griffiths yn rhoi gwybodaeth am y cyfarfod.

Anfonodd Peredur Jenkins lythyr (10/2/2021), fel Cynghorydd Gwynedd yr ardal, i Mr Antony D.Ll. Griffiths yn rhoi ei farn ar Cyfoeth Naturiol Cymru.

Anfonwyd copi o'r ddau lythyr i'r aelodau.

Eitem 5.d. Cafwyd wybod gan Zurich (12/2/2021) i ni wneud ymoliadau â BT i gael pris y ciosg. Cafwyd gwybod (15/2/2021) gan BT ni allent roi gwerth yswiriant y ciosg ond yn awgrymu i ni ymchwilio gyda chwmnïau sydd ar y we. Ar eBay mae'r pris yn amrywio o £3,000 i £6,500.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Cyngor Gwynedd i gael gwybod os mae ciosg o'r fath yn cael eu hyswirio.

Eitem 9.c. Llythyr (12/4/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Meirionnydd ar 7/5/2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 13, 2021

Eitem 11.a. Llythyr (15/2/2021) oddi wrth Swyddog Cofrestru, Cyngor Gwynedd gyda Rhybudd ar gyfer seddi gwag a'i arddangos ar ein hysbysfyrddau o 22/2/2021 i 12/3/2021. Mi fydd yn cysylltu â ni wedi'r cyfnod ymateb.

Rhodddwyd y Rhybudd ar y pedwar hysbysfwrdd.

Lythyr ateb (19/3/2021) oddi wrth Swyddog Cofrestru, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod ni dderbyniwyd cais am etholiad ac felly cawn symud ymlaen i gyf-ethol aelodau newydd.

Penderfynwyd i'r aelodau gwneud ymoliadau am ddau aelod.

### **5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu [ratingwales@voa.gsi.gov.uk](mailto:ratingwales@voa.gsi.gov.uk). Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

b. Bil (4/3/2021) am £50.05 oddi wrth Dŵr Cymru at wasanaethu Toiledau Cyhoeddus Bontddu am y cyfnod 12 Awst 2020 – 8 Chwefror 2021. Mae'n cael ei dalu drwy DD.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Bil (24/3/2021) Treth Annomestig Genedlaethol ar gyfer 2020/21 tuag at Public Conveniencs Bontddu oddi wrth Cyngor Gwynedd. Taliad 15.04.2021 = £27.43, ac yna £24.00 y mis (am 9 mis). Cyfanswm yn £243.43 (llynedd y cyfanswm oedd £243.43 ond ni thalwyd y swm, y taliad olaf oedd yn 6/1/2020).

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd i gael gwybod y diweddaraf ynglŷn ag archwiliad roedd yr Adran am wneud i'r Toiledau.

d. Llythyr (22/3/2021) oddi wrth Zurich, ein cwmni yswiriant. Maent angen gwybod faint mor aml mae'r toiledau yn agored ac yn cael eu defnyddio. Hefyd, pa mor aml rydym yn ei archwillio.

Penderfynwyd rhoi gwybod iddynt fod y toiledau ar gau, maent yn cael eu harchwilio yn flynyddol ac rydym mewn trafodaeth â Chyngor Gwynedd ynglŷn eu dyfodol.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 13, 2021

- dd. Llythyr (11/2/2021) oddi wrth Cyngor ar Bopeth yn diolch am ein rhodd o £100.
- e. Llythyr (12/2/2021) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £150.
- f. Llythyr (17/2/2021) oddi wrth Canolfan y Pentref Llanelltyd yn diolch am ein rhodd o £500.
- ff. Llythyr (10/3/2021) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.
- g. Llythyr (25/2/2021) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda'u Hadroddiad Blynyddol Chwefror 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021. Mae'r adroddiad ar we Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2021 i 2022 Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.  
Taliadau tuag at gostau a threuliau:  
Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.  
Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn y taliad £150 os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.  
Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:  
Gall cyngorau dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy, sef 45c y filltir (lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i'r aelodau arwyddo llythyr yn datgan eu dymuniad ddim i dderbyn y taliad £150.

h. Llythyr (10/3/2021) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2021.

ii. Bil am £204.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2021 ac am gyflwyno cyflog misol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60.

Penderfynwyd talu'r bil.

i. Llythyr (16/3/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen Aelodaeth yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2021 / 2022. Tâl Aelodaeth yw £97.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 13, 2021

l. Bil (30/3/2021) am £287.35 oddi wrth Archwilio Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2019 / 2020 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO.

Penderfynwyd talu'r bil.

ll. Balans yn y banc ar 28 Chwefror 2021: £10,187.62. (29/02/2020: £10,133.10).

m. Balans yn y banc ar 29 Mawrth 2021: £9,309.77. (29/03/2020: £8,806.28).

## **6. Archwilio**

a. Anfonwyd llythyr (16/3/2021) i Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt barhau i archwilio ein dogfennau.

Llythyr ateb (17/10/2021) yn gofyn am lythyr ffurfiol i benodi y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Anfonwyd y llythyr ar 17/3/2021.

b. Llythyr (30/3/2021) oddi wrth BDO LLP, ein Harchwilydd Allanol yn cynwys dogfennau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/2021:

Hysbysiad Diwedd yr Archwiliad – rhoddwyd y rhybudd (Cymraeg a Saesneg) ar y 4 hysbysfwrdd ac ar y wefan.

Nodiadau ynghylch hysbysiad Diwedd yr Archwiliad.

Materion yn codi yn sgil yr archwiliad – o'r Adroddiad yr unig fater oedd angen sylw oedd Asedau Sefydlog (nid oeddynt wedi eu cynwys ar y Ffurflen Flynyddol).

Ffurflen Flynyddol – y ffurflen wedi ei gwblhau.

Ni fydd BDO LLP yn cynnal ein harchwiliad yn 2020/2021.

Anfonwyd y dogfennau i'r aelodau. Bydd angen cofnodi bod y Cyngor wedi cymeradwyo a derbyn y Ffurflen Flynyddol.

Penderfynwyd cymeradwyo a derbyn y Ffurflen Flynyddol.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 13, 2021

c. Llythyr (30/3/2021) oddi wrth Archwilio Cymru yn cynwys dogfennau Archwilio Cyfrifon 2021.

Amgáu mae Ffurflen Flynyddol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 a bydd angen ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a chymeradwyo gan y Cyngor erbyn 30/6/2021 a'i anfon i Archwilio Cymru erbyn 1/9/2021. Mae angen cyhoeddi hysbysiad archwilio erbyn 6/8/2021 ar ein hysbysfyrdau ac ar ein gwefan.

Mi fyddant angen:

Cysoniad banc ar 31 Mawrth 2021.

Esboniad o'r amrywiadau rhwng cyfrifon 2019-20 a 2020-21 yn ffurflen flynyddol 2020-21.

Os yn berthnasol, esboniad o unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon 2019-20 oedd wedi eu yn cynnwys ar ffurflen flynyddol 2019-20 a chyfrifon 2019-20 a adroddwyd ar ffurflen flynyddol 2020-21.

Copi o gontract cyflogaeth y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Lle mae cyflog y Clerc/ Swyddog Ariannol Cyfrifol heb ei nodi yn y contract neu'n cael ei osod yn flynyddol, cofnodion y cyfarfod lle cafodd y cyflog ei gytuno gan y Cyngor.

Slipiau cyflog a chofnod treth ar gyfer y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer mis Hydref 2020.

## **7. Mynwent Llanelltyd**

a. Llythyr (25/3/2021) oddi wrth Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol, Cyngor Gwynedd yn ymwneud â Chasglu Gwastraff Masnachol o'r fynwent yn 2021/2022. Os am wasanaeth fel y llynedd, bydd y casgliad yn wythnosol gydag un bin olwyn 240ltr drwy'r flwyddyn, y ffi i'w dalu yw £377.00. Bydd anfoneb am y swm yn cael ei anfon ymhellach ymlaen.

Penderfynwyd derbyn y telerau.

b. Llythyr (12/4/2021) oddi wrth P & M Wick, Tandalar, Llanelltyd ynglŷn â'r Fynwent. Maent angen i ni roi sylw i ordyfiant coed sydd wrth y giat sydd ar derfyn wal yr eglwys.

Penderfynwyd gofyn i Meurig Ashton clirio y gordyfiant.

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (11/2/2021) yn rhoi gwybod am Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft: CCA3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Mae angen anfon ymatebion i [polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymrc](mailto:polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymrc) cyn Mawrth 26,2021.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 13, 2021

b. Llythyr (9/3/2021) copi o'r cyflwyniad a wnaed i Bwyllgorau Ardaloedd Arfon Dwyfor a Meirionnydd gan Angela Jones ar Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri 2020.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Cais cynllunio NP5/65/2B. Trosi ysgubor yn annedd fforddiadwy a gwaith cysylltiol gan gynnwys gosod tanc septig ac arallgyfeirio llwybr cyhoeddus Beudy Uchaf Hirgwm, Maes y Clawdd, Bontddu.

Llythyr (11/3/2021) oddi wrth Mr Hedd Tomos (cyflwynydd y cais) yn rhoi gwybod ei reswm am y cynllun. Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (16/3/2021).

ch. Llythyr (25/3/2021) yn rhoi gwybod mae Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) wedi cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus – CCA 15: Telathrebu a Mastiau. Mae CCA yn darparu gwybodaeth fanwl bellach i gefnogi polisiau Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 Mae'r wybodaeth ar wefan yr Awdurdod – <https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidance/supplementary-planning-guidance-consultation> Os mae ymatebion eu hanfon i [polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru](mailto:polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru) cyn 6/5/2021.

## **9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (17/2/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mawrth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (26/2/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd adroddiad Dr Simon Brooks –“Ail Gartrefi: Datblygu polisiau newydd yng Nghymru” yn cael ei gyhoeddi ac mi fydd yn cynnal gweminar yn trafod canfyddiadau ei adroddiad. Bydd dau ddiwyddiad yn cael eu trefnu, un yn y Gymraeg a'r llall yn Saesneg. Cynhelir y digwyddiad drwy gyfrwng y Gymraeg am 16:30 dydd Iau 4 Mawrth ac yn Saesneg am 17:45 dydd Iau 4 Mawrth. I gofrestru mae angen cysylltu â Rhys.Davies@llyw.cymru erbyn 12:00 o'r gloch brynhawn Mercher 3 Mawrth, gan nodi pa gweminar byddwn yn dymuno mynychu.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 13, 2021

c. Llythyr (20/3/2021) oddi wrth breswilydd pryderus, Bro Cymer ynglŷn â llanast adeiladwr ym maes parcio Bro Cymer. Mae'n gofyn i ni edrych i mewn i'r mater a gofyn i'r adeiladwr pam ei fod yn defnyddio rhan yma o'r stad fel iard adeiladwr i'w ddefnydd iddo ef ei hun.

Derbyniwyd yr un gwyn (7/6/2019) gan Mrs L. Talor, Aberystwyth (nain i blant). Gwnaethpwyd dim efo'r mater oherwydd nid oedd gwybodaeth Mrs Talor yn gyflawn.

Penderfynwyd anfon y llythyr ymlaen i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd oherwydd mi fyddant yn gwneud gwaith ar y Cae Chwarae.

ch. Llythyr (22/3/2021) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn amgáu dogfen Adnewyddu Cod Cefn Gwlad 2021 - Geiriad terfynol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (22/3/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ebrill.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (26/3/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am dri aelod ar gyfer Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r wybodaeth ar wefan Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Dyddiad cau am geisiadau yw 23/4/2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Llythyr (25/3/2021) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd gyda rhestr rhaglen waith:

ar ffordd o fewn 30/40mya yn Llanelltyd yn Mai, Gorffennaf a Medi.

ar ffordd o fewn 30/40 yn Bontddu yn Ebrill, Mehefin ac Awst.

ar Cae Chwarae yn Bro Cymer yn Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi.

ar Cae Chwarae yn Bontddu yn Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi.

ar Llwybr 5 (mynd heibio Ty'n yr Ardd) yn Llanelltyd yn glanhau cwli ar hyd ymyl y llwybr.

**10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Llythyr (11/3/2021) oddi wrth Mr a Mrs Robert Hulme, Farchynys Fach i'r Senedd, Peredur Jenkins a Gethin Williams. Mae'n gofyn am arweiniad am y difrod sydd wedi cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn torri coed yn y goedwig wrth ei dir. Mae'r gwaith wedi achosi difrod i'w goedwig, bywyd gwylt, waliau a llifogydd. Mae wedi gofyn i CMC am wybodaeth ar eu cynlluniau ond does dim yn dod.

Anfonwyd llythyr (11/3/2021) i Mr Dylan Williams, CNC gyda copi o'r llythyr uchod yn gofyn iddo i edrych i mewn i'r mater gan ychwanegu does dim cyfathrebu rhwng CNC a chymuned leol.

Derbyniwyd llythyr ateb (15/3/2021) yn awgrymu cael cyfarfod gyda swyddogion CNC a chytunwyd cael cyfarfod.

Anfonwyd copi o'r llythyrau i'r aelodau.

**11. Materion Brys**

a. Penderfynwyd gofyn i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i archwilio ffordd Cwm Mynach oherwydd mae amryw o dyllau ar wyneb y ffordd yn enwedig o Ty'n y Coed ac ymlaen.

-----